# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

RHIF 151

CHWEFROR 1989


# Capten newydd ar ddec S4C





Cyhoeddwyd ar Ionawr 16eg mai Geraint Stanley Jones fydd pennaeth newydd S4C. Ar hyn o bryd ef yw rheolwr-gyfarwyddwr darlledu rhanbarthol y BBC a bu'n gweithio yn Llundain ers tair mlynedd a hanner ar ôl cyfnod fel Rheolwr y Cwmni yng Nghymru. Bydd yn olynu Owen Edwards, rheolwr S4C ers wyth mlynedd (yntau hefyd yn gyn-reolwr y BBC) ar ei ymddeoliad yn yr haf. Gobeithiwn, bryd hynny, gael cyfle i drafod dyfodol y sianel gyda'r pennaeth newydd (yn ôl yr hanes 'Prif Weithredwr' fydd teitl ei swydd) ac i edrych yn ôl ar y blynyddau cynnar dan gyfarwyddyd Owen Edwards.

# Llwyddiant



Unwaith eto daeth llwyddiant i ran Endaf Emlyn. Y mae newydd ddychwelyd o'r Almaen ar ôl mynychu Gŵyl Ffilmiau Ryngwladol yn Würzburg. Yno dangoswyd ei ffilm ''Stormydd Awst', ffilm Gymraeg gyda isdeitlau. Enillodd y ffilm brif wobr yr Ŵyl-'gwobr Chari Vari. Yn naturiol y mae hyn yn hwb, yn galondid ac ynllwyddiant personol i Endaf. Ond y wefr fwyaf iddo oedd bod y Gymraeg erbyn hyn ym myd ffilmiau yn gallu sefyll ochor yn ochor â ffilmiau o bob rhan o'r byd. Y mae'n teimlo yn gryf nad oes angen i ffilm Gymraeg gael ei saethu yn Saesneg hefyd i greu impact yn y byd cyfryngol eang caled sydd ohoni heddiw. Calondid mawr iddo oedd y diddordeb brwd ymholgar a ddangoswyd yn yr iaith ac yng nghrefft a dychymyg cenedl fach sy'n ennill llawryfon ar gyllidebau bach. Bwriada fuddsoddi'r wobr i'w alluogi i barhau i adael i'w ddychymyg fod yn drên- ac nid bod yn rhan o 'dren y grefi' yw ei fwriad. Edrychwn ymlaen at fwynhau ffrwyth ei lafur, ei grefft a'i ddychymyg yn y dyfodol Llongyfarchiadau i Endaf a'i dîm i gyd.

Dylid anfon y deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf at y Golygydd erbyn -Chwefror y 18fed. Cofiwch mai mis bach yw hwn. Anfoner ar fyrder i Goed-y-Pry, 3, Llandennis Avenue, Cyncoed. Rhif ffon 751469.

# SÊR Y DINESYDD

*Eiry Palfrey*

CHWEFROR 1989 gan Eiry Palfrey

ARIES
Mi fydd rhai o'ch cyfeillion yn benderfynol o gynnig cyngor i chi y mis hwn, ond pa mor synhwyrol a doeth y mae yn ymddangos beth bynnag wnewch chi peidiwch a'i gymryd, gwell o lawer fyddai i chi ddilyn eich cyngor eich hun. Mi fydd hwn yn gyfnod da i ofyn am ddyrchafiad yn y gwaith neu am godiad ariannol.

TAURUS
Nid dyma'r adeg i wneud unrhyw benderfyniad newydd ynglyn a'ch gwaith oherwydd os gwnewch chi mae na bosibilrwydd cryf y byddwch yn newid eich meddwl eto maes o law. Ond ar y llaw arall mae hwn yn gyfnod ffafriol i faterion cyfreithiol o bob math ac felly'n amser gwych i arwyddo cytundebau a ffurflenni swyddogol.

GEMINI
Yn anffodus rydych ar drothwy cyfnod o rwysredigaethau ac oedi yn enwedig mewn materion sy'n ymwneud a'r gyfraith, addysg, cyhoeddi neu deithio tramor. Felly peidiwch â threfnu'ch gwyliau tan ddiwedd y mis. Ond ar y llaw arall mi allwch fforddio bod yn weddol optimistaidd yn y gwaith am rai wythnosau.

CANCER
Peidiwch da chi â phrynu dim fydd yn gofyn i chi arwyddo bapur tan ddiwedd mis bach, neu fe allwch ddifaru. Serch hynny fe ddylai materion y galon fynd yn hwylus iawn ar hyn o bryd, ac os bu unrhyw fanion yn cymylu'ch hapusrwydd yn ddiweddar dyma'r union amser i drin a thrafod eich problemau a rhoi'r byd yn ei le.

LEO
Os ydych mewn cyfyng gyngor ynglyn â pherthynas agos mi fyddai'n ddoethach peidio gwneud unrhyw benderfyniad yn ei gylch am wythnos neu ddwy. Dydych chi ddim mewn sefyllfa i feddwl yn syth ar hyn o bryd. Yn lle hynny canolbwyntiwch ar y sefyllfa yn y gwaith, rydych yn sicr o fod yn llwyddianus yno cyn bo hir iawn.

VIRGO
Dyma'r adeg i ddechrau ar y ddeiet hir - addawedig honno ar ôl gormodedd y Nadolig. Rhaid i chi beidio ag oedi mwy neu fe allai'ch iechyd ddioddef. Bydd hwn yn gyfnod cymysg braidd o ysgafnder (hynny yw ysgafnder y meddwl, nid y corff!) a difrifoldeb dwys. Peidiwch â chymryd pethau ormod o ddifri.

LIBRA
Mae dau beth yn flaenllaw yn eich meddwl ar hyn o bryd, serch - ond peidiwch â gwneud unrhyw benderfyniad parhaol yn ei gylch eto, fe allech ddifaru; a'ch iechyd. Ac os bu'r hen ffliw neu afiechyd arall yn eich poeni'n ddiweddar mi ddylech deimlo'n well o lawer erbyn hyn ac yn fwy awyddus i gymdeithasu a chael hwyl.

SCORPIO
Mae'n rhaid i bawb wneud penderfyniad pwysig o bryd i'w gilydd, ond y cyngor gorau ar hyn o bryd fyddai i beidio â gwneud unrhyw benderfyniad yn enwedig ynglyn â'ch cartref neu'ch teulu, beth bynnag sy'n eich poeni, gadewch iddo fod am y tro. Efallai y cewch newyddion da a phleserus yn ymwneud â brawd neu chwaer.

SAGITTARIUS
Mi dylai hwn fod yn gyfnod ardderchog i chi yn ariannol, newyddion da yn enwedig os ydych - fel arfer - wedi gorwario dros y Nadolig. Mae Sagittarius yn un garw am orwneud pethau. Mae'n bosib y daw cildwrn bach annisgwyl i chi. Ac os ydych wedi gwneud addunedau blwyddyn newydd yna mae'n eitha tebygol y byddwch yn eu torri cyn bo hir!

CAPRICORN
Peidiwch â gwneud unrhyw benderfyniad ariannol a allai effeithio'ch dyfodol am wythnos neu ddwy. Mae eich pen yn y cymylau braidd ar hyn o bryd a mae hynny'n arferol i chi felly bydd rhaid cymryd mwy o sylw o'r rhybudd. Mae hi'n braf breuddwydio, ond gofalwch ar yr un pryd fod eich traed yn dal yn solet ar y llawr.

AQUARIUS
Peidiwch â gwneud unrhyw benderfyniad pwysig ynglyn â'ch bywyd personol ar hyn o bryd oherwydd dyw'r ffeithiau i gyd ddim gyda chi eto. Fe ddaw'r cyfan yn eglur maes o law, ond amynedd piau hi am y tro. Bydd rhywun yn ddiolchgar iawn i chi am eich gofal a'ch help, chwarae teg mae'ch calon yn y lle iawn.

PISCES
Os bu hen broblem ddyrys yn eich poeni ers tro bellach yna fe ddaw'r ateb yn syml a chlir i chi'n fuan iawn. Mi fyddwch yn synnu eich bod wedi llwyddo i ddatrys eich penbleth mor rhwydd. Mi fyddwch yn dibynnu ar ffrind hŷn. Fe allai cydweithio oddi mewn i grŵp neu gymdeithas ddod a gwobr ariannol annisgwyl i chi.

# FFARWELIO

Mae Dorothy Williams a fu er y pundegau yn un o golofnau byd y teledu yma yng Nghaerdydd, wedi ymddeol (yn gynnar rhaid dweud!) ddiwedd y flwyddyn. Yn enedigol o Ddolgellau ac wedi cartrefu wedyn yng Nghricieth, fe fu'n gweithio i'r BBC yn Llundain a Chaerdydd cyn cymryd swydd gyda TWA pan sefydlwyd y cwmni hwnnw yn 1957. Daeth ei henw yn gyfarwydd gyda chyfresi fel 'Amser Te', ac yn ddiweddarach, erbyn hyn dan faner HTV, gyda'r gyfres hir 'Hamdden' a rhaglenni 'Ffalabalam'. Yn y blynyddoedd diwethaf bu'n cynhyrchu 'Trebor', 'Ffefrynnau', 'Cais Am Gân', a llu o raglenni eraill, heb sôn am yr arlwy flynyddol o Eisteddfod yr Urdd, a bob amser roedd yn ei rhaglenni ôl dethol gofalus a chynhyrchu trwyadl a phroffesiynol. Hi hefyd roes gychwyn i yrfa sawl un arall a ddaeth yn adnabyddus o flaen neu y tu cefn i'r camera.

Bydd ymddeoliad Dorothy yn sicr yn golled i S4C ac mae'n anodd dychmygu Croes Cwrlwys hebddi. Ond iddi hi fe fydd hwn yn gyfle euraidd i fwynhau ei llu ddiddordebau y tu allan i'r cyfryngau, yn enwedig ei hoffter o deithio. Pob hwyl a hapusrwydd iddi yn ei chartref yn Llandâf a ble bynnag arall y bydd yn treulio'i 'hamdden' a'i 'hamser tê' hi ei hunan. Yn bendant bydd ei ffrindiau i gyd yn gobeithio gweld llawer mwy ohoni i fwynhau ei chwmni difyr a'i hiwmor.

Eleanor Mathias.

# LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Carol Williams ar ei dyrchafiad yn ddiweddar o fewn y cwmni cyfreithiol Phillips and Buck. Y mae Carol yn wraig i Parchedig W I Cynwil Williams ac yn fam i dair o ferched. Ymunodd â'r cwmni yn 1976, camp nid bychan yw lwyddo fel mam, gwraig i weinidog a dilyn gyrfa mewn byd digon cystadleuol. Ymfalchiwn yn ei llwyddiant.


Bydd **GWRANDAWIADAU** ar gyfer cyfres newydd o'r rhaglen deledu

NOSON LAWEN

yn cael eu cynnal mewn nifer o ganolfannau ar hyd a llêd Cymru yn ystod MIS MAWRTH A MIS EBRILL.

Os oes gennych chi eitem a allai fod yn addas ar gyfer y rhaglen, boed gân, eitem ddoniol neu beth bynnag y bo, beth am roi cynnig arni?

Anfonwch am fanylion o'r dyddiadau a'r lleoliadau ynghŷd â ffurflen gais at **Teledu'r Tir Glas**, Maesincla, Caernarfon Gwynedd. (0286) 5766

# ARDDANGOSFA

Amgueddfa Genedlaethol
Y Prif Adeilad   Parc Cathays

Campweithiau o'r Amgueddfa Genedlaethol yn parhau

Fawr o newid o'r hyn a ddangoswyd trwy gydol 1988.

Amgueddfa Werin Cymru   Sain Ffagan

1 Chwefror - 31 Mawrth
Synagogau yng Nghymru

Arddangosfa o luniadau a pheintiadau o synagogau gan Olwen Hughes. Comisiynwyd gan Gyngor cynrychioliadal Iddewig Caerdydd.

Tŷ Turner
Heol Plymouth, Penarth

Peintiadau Cyfoes yn parhau

Dal i lanw bwlch y mae'r arddangosfa hon oherwydd y golled o orielau yn y prif adeilad, Caerdydd.

Neuadd Dewi Sant   Yr Ais

Peintiadau (lefel 2)
6 Chwefror - 4 Mawrth

Iwan Bala a Steven McDade.
Iwan Bala, y Cymro Cymraeg sy'n byw a gweithio yn Nhreganna.

Oriel   Heol Siarl

Eiddo Caerdydd

3 Chwefror ymlaen

Detholiad o ddarluniau allan o gasgliad sylweddol y Ddinas. (Gweler 'Arddangosfa Olaf Oriel yn Heol Siarl')

Chapter   Heol y Farchnad, Canton

Casgliad De Morgannwg. Pwrcasiadau 1988

21 Ionawr - 5 Chwefror

Peintiadau a gyllidwyd gan Gyngor Sir De Morgannwg.

Arrdangosfa Olaf Oriel yn Heol Siarl

Fel y datgelwyd gan y Dinesydd yn rhifyn Tachwedd 1988, y mae Oriel yn gorfod ymadael â'r adeilad presennol. Yn ystod mis Chwefror bydd cyfle i ymweld a'r arddangosfa olaf i'w chynnal yno, sef 'Eiddo Caerdydd'.

Mewn nodiadau i gyflwyno'r arddangosfa, dywed Hugh Thomas, Cadeirydd pwyllgor Celf Cyngor y Celfyddydau, mai ei obaith yw y byddai'r drysau'n agor eto mewn adeilad arall erbyn diwedd y Gwanwyn 1989. Yn od iawn, nid yw eto'n dweud ym mhle mae'r adeilad. Siawns na ddylai'r cyhoedd gael gwybod erbyn hyn? Y mae gan y cyhoedd ddiddordeb digon iach a naturiol yn nyfodol a pharhâd cyfleusterau o'r fath.

Beth bynnag am hynny, braf yw nodi fod Oriel wedi trefnu 188 o arddangosfeydd, yn cynnwys gweithiau gan dros 1400 o artistiaid, mewn cyfnod o bymtheg mlynedd. Agorwyd Oriel ym mis Mai 1974. Efallai na roddwyd digon o sylw i weithiau artistiaid gwir Gymreig; ac nid dweud yw hyn nad oes lle i arddangos gweithiau artistiaid estron o gwbl, ond dweud fod lle i fwy o'r rhai cynhenid, nag a fu.

Deuai'r gweithiau i'r arddangosfa 'Eiddo Caerdydd' o gasgliad sylweddol y ddinas. Gwŷr y rhai hynny sydd wedi ymweld â thri man; y Castell, Neuadd y Ddinas, a thŷ'r Maer, fod yna gasgliad gwych o beintiadau yw cael arwahan i'r rhai sydd yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Detholiad o beintiadau o'r tri lle hyn yw'r arddangosfa.

Dechreuwyd y casgliad yn siambr yr hen Neuadd y Dre (1854-1876), a safai gyferbyn a mynedfa'r Farchnad Ganolog bresennol yn Heol Fair. Y rhodd cyntaf oedd 38 o beintiadau o gasgliad William Menclaus (1818-1882). Yn ddiddorol i ni yw'r ffaith mai T H Thomas, Arlunydd Penygarn (1839-1915) yw un o'r rhai a gatalogodd y casgliad am y tro cyntaf, fel ag yr oedd ym mis Hydref 1882. Erbyn hyn yr oedd rhai darluniau godidog fel 'St Ffransis o Assissi' gan Strozzi, 'Y Gwahanu' gan James Tissot.

Y digwyddiad nesaf o bwys oedd rhodd James Pyke Thomson (1846-1897), a oedd wedi agor Turner House, Penarth er mwyn arddangos ei gasgliad breifat i'r cyhoedd. Ei ddelfryd oedd rhoi cyfle i'r dosbarth gweithiol fwynhau a dysgu am gelfyddyd. Fe adawodd swm o arian hefyd, i brynu gweithiau wedi ei farw. Dilynwyd rhain gan eraill o garedigion y ddinas.

Trosglwyddwyd y rhoddion hyn i ofal yr Amgueddfa Genedlaethol yn 1912, ac mewn amser fe'i symudwyd allan o Amgueddfa'r Dre i'r adeilad newydd ym Mharc Cathays, er i beth aros yn y Llyfrgell Gyhoeddus Rhydd. Ac yn y tri man y cyfeiriwyd atynt ar y dechrau y mae llawer iawn o weithiau'n aros, gweithiau sydd nid yn unig â gwerth ynddynt eu hunain, ond sydd â gwerth yn cyfleu beth o hanes dinas a phobl Caerdydd.

Seiriol Davies


HYSBYSEBWCH
YN
Y
DINESYDD



GWESTY FFERM
PENBONTBREN


PENWYTHNOS GWYL DEWI

3 - 5 o Fawrth

Dowch i ddathlu'r Ŵyl yn y Gorllewin! Penwythnos gyda bwffe eang y nos Sadwrn. Adloniant yn cynnwys telynnau a chlocswyr. Pob ystafell â chyfleusterau. £50 y pen.

Cysylltwch â

GWESTY FFERM PENBONTBREN
Glynarthen
Aberteifi
Dyfed
SA44 6PE   (0239) 810248

Diwedd Mynediad Am Ddim

Yn dawel iawn mis Tachwedd diwethaf, y rhoddwyd yr egwyddor o fynychu Amgueddfa Cenedlaethol Cymru yn rhad ac am ddim i orffwys.

Yn dawel am na chodwyd llais o brotest am y gwyddwn ni, ac am na wnaeth awdurdodau'r Amgueddfa wneud fawr o ddatganiad amdano chwaith. Arwahan i'r Echo doedd dim sôn am y peth yn y papurau dyddiol. Digon o brotestio pan ddigwyddodd hyn yn Llundain. Tybed a ydyn wedi'n camu mor lân gan thatcheriaeth fel nad oes dim mêr yn ein hesgyrn cefn i ymladd.

Nid dyma oedd delfryd y tadau a fu'n rhoi, ac yn llafurio i greu'r cyfleusterau hyn, ond ni saif neb yn y bwlch heddiw, dim na wleidydd, na Chyngor na Choleg na neb.


TAFLEN

12, DUKE STREET ARCADE,
CAERDYDD CF1 2AZ.
FFÔN: (0222)227530

O'R GOGLEDD I'R DE

*Arddangosfa gan Grochenwyr ac Artistiaid Gogledd Cymru*

SADWRN, CHWEFROR 25 — LLUN, EBRILL 10, 1989




# GARIGROSER




- dyna enw siop lysiau newydd Gari Prysor yn Nhreganna. Mae 'na sglein ar y siop a sglein hefyd ar yr afalau a'r tomatos a'r orennau sy' wedi eu gosod yn ddeniadol ar y silffoedd.

Ffrwyth profiad Gari fel prynwr llysiau i gwmni mawr ym Manceinion yw'r dewis eang o gynnyrch sy' ganddo ar werth; am chwe mis wrth y gwaith hwnnw arferai godi am hanner awr wedi tri y bore i ymlwybro i farchnad lysiau'r ddinas. Heddiw caiff aros yn ei wely am awr ychwanegol cyn cychwyn am farchnad Caerdydd yn Bessemer Road!

Mae'n hen gyfarwydd â chodi'n fore gan y byddai, fel aelod o dîm nofio ieuenctid Cymru, yn gosod y 'larwm am 5.30 er mwyn mynd i'r pwll i ymarfer ac yna rhuthro 'nôl i'w gartre' ym Mharc Fictoria, llyncu tamaid o frecwast a dal y bws i Ysgol Rhydfelen. Ar ôl dyddiau ysgol (mae'n awr yn 26 oed) bu'n gweithio yn Llundain am gyfnod mewn stiwdio Sain cyn mynd i Awstralia fel technegydd-cyfrifiadur yn Adran Gerddoriaeth Cwmni ABC (sy'n cyfateb i'r BBC). Yno, cafodd brofiad wrth ei fodd; gofynwyd iddo ymchwilio a chofnodi canu gwerin Cymru, Yr Alban a gwledydd Ewrop ynghyd â cherddoriaeth gyfoes ac un o'i bleserau mawr oedd trosglwyddo cân o Albwm Endaf Emlyn, "Dawnsio'n Araf" i un o DJ's y cwmni

Cerddoriaeth yw ei dalent; mae'n gyfansoddwr ac wedi ymddangos ar deledu yn canu ei ganeuon ei hun (dywed rai,'roc meddal' yw'r disgrifiad gorau ohonyn nhw) i gyfeiliant ei gitâr.

Ond ar hyn o bryd mae'n troi ati â'i holl egni i ddatblygu ei fentr newydd gyda'r bwriado ehangu ac amrywio'r cynnyrch a chynnig dewis da o ffrwythau trofannol i'w gwsmeriaid.

Does dim ond eisiau i chi godi'r ffôn (341426) neu alw yn y siop, 238A Cowbridge Road East (ar gornel Pen-y-PeEL Road) a fe gewch sylw, llond ceg o Gymraeg, llwyth o lysiau da a pwy a ŵyr - pwt o gân. Dymunwn bob lwyddiant i Gari.

N.H.W.

# CROESO

CADEIRYDD DATBLYGU'R CANOLBARTH YN CROESAWU MENTER HYFFRODDI NEWYDD

Mae Cadeirydd Datblygu'r Canolbarth, Mr F Leslie Morgan CBE wedi croesawu Papur Gwyn newydd y Llywodraeth 'Cyflogaeth ar gyfer y 1990au', sy'n amlinellu cynllunisu newydd chwyldroadol ar gyfer creu swyddi gwell a darparu hyfforddiant menter.


Argymhellir ynddo, ymhlith pethau eraill, sefydlu Cynghorau Hyfforddiant a Menter ledled Cymru.

'Mae Datblygu'r Canolbarth wedi'u hymrwymo i'w llwyddiant', meddai Mr Morgan. 'Gellid yn hawdd dybio, o gofio'r ffordd integredig yr awn ati yma i gynnal gwaith datblygu cymdeithasol ac economaidd, mai Datblygu'r Canolbarth sydd â'r rhaglen fwyaf cynhwysfawr ym Mhrydain i hybu a chynorthwyo busnesau newydd, a mabwysiadwyd gennym gynllun hyfforddi cymathedig ar gyfer pobl ifainc ac oedolion fel ei gilydd.

'Bydd y Cynghorau Hyfforddiant a Menter yn hwb ychwanegol i'r gweithgareddau hyn. Bydd cyflogwyr, pobl fusnes a gweithwyr y Canolbarth oll yn elwa ar berthynas glos rhwng Datblygu'r Canolbarth a Chyngor Hyfforddiant a Menter newydd a ddylai feddu, os yn bosibl, ar yr un ffiniau daearyddol â'r Bwrdd'.

'Rydym wedi mynd ar ofyn carfan o gyflogwyr sy'n gwbl gefnogol i egwyddorion y mentrau hyfforddi newydd gan awgrymu iddynt ffurfio partneriaeth newydd â Datblygu'r Canolbarth er datblygu mentrau yn y Canolbarth a hybu twf economaidd y rhanbarth', meddai Mr Morgan.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816


Hunangyflogedig?
Heb Bensiwn?

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

Aelod o FIMBRA

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

BUDDSODDIADAU
YSWIRIANT BYWYD
PENSIYNAU


# Y CALENDR

Chwefror 15
Cymdeithas Minny Street
Noson o adloniant yn Eglwys Dewi Sant.

16
Cymdeithas Bro Radur
Ymweliad â Gwaith Dur Llanwern.

20
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd
Priodu'r Electra â Golau gan y Dr Ben Thomas - Clwb Ifor Bach am 8pm.

22
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Siaradwr Wynne Lloyd

Mawrth 1
Cymdeithas Minny Street
Noson Gŵyl Ddewi. Siaradwyr Elunis a Howard Goodfellow.


2
Cymdeithas Gymraeg Bro Radur
Cinio Gŵyl Ddewi yn y Radyr Arms. Gŵr Gwadd Gwilym Owen.

15
Cymdeithas Minny Street
Noson Gerddorol yng nghwmni Eilonwy Jones.

20
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd
Bron Brawf. Y Dr Huw Gravelle o Ysbyty Athrofaol Cymru. Clwb Ifor Bach am 8pm.

29
Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Siaradwr Toni Scourfield.

FE GYNHELIR CINIO 'GODRE'R MYNYDD DU' AR CHWEFROR 1989 YNG NGWESTY'R PHOENIX, LLANISHEN. YMHOLIADAU I RHYS MORGAN - ffôn 693848.



# LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd

Yn dilyn llwyddiant 'Gwyliau '88' - sef atodiad llawn lliw Bwrdd Croeso Cymru a ddosbarthwyd trwy rwydwaith y papurau bro y llynedd, y maent wedi penderfynu cynhyrchu rhifyn eto eleni - i'w ddosbarthu mis Mawrth a fydd yn canolbwyntio ei sylw ar y Gogledd, Canolbarth a'r De.

Unwaith eto rydym yn gallu cynnig tâl o £50 i bob papur bro, gan nodi nad oes disgwyl i chi anfon copiau i bobl sy'n ei dderbyn drwy'r post a byddwn yn ddiolchgar pe medrech lenwi'r atodiad manylion amgaeedig a'i ddychwelyd yn yr amlen rhadbost. Byddwn wedyn yn gallu gwneud trefniadau i anfon y pecynnau atoch. (Bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hanfon gyda Securicor).

Gan obeithio y bydd eich darllenwyr yn mwynhau gwyliau yng Nghymru eleni.

Gyda diolch

Elwyn Jones
STRATA
Tŷ'r Strata
23-25 Rhodfa'r Gogledd
Aberystwyth
Dyfed
(0970) 611224

Annwyl Olygydd

PENNAU BACH 1989

Beth ddigwyddodd i Gaerdydd ym 1955? O ba wlad y daw'r dyfeisiwr Erno Rubik? A beth yw lled y tâp magnetic mewn caset fideo?

Os gallwch chi ateb y tri cwestiwn yna, beth am gymryd rhan yn Pennau Bach 1989 - gêm cwis gwybodaeth gyffredinol Radio Cymru?

Ry'n ni'n chwilio am berson mwyaf peniog Cymru, ac efallai mai chi yw'r un.

Cysylltwch yn syth â Pennau Bach, BBC, 32 Heol Alecsandra, Abertawe SA1 5DT

Geraint Davies
Cynhyrchydd

Fel yr oedd Y Dinesydd yn mynd i'w wely daeth y newydd trist am farwolaeth Enid, priod W. Jones a Mam Paul a Nesta. Gwyddom i Enid ymladd yn ddewr ag afiechyd blin, chwith meddwl iddi golli'r dydd. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teulu, un o deuluoedd ffyddlona'r Dinesydd. Mae ein meddyliau efo chi fel teulu.

Annwyl Olygydd

CWRS CEFNDIR 1989

Tybed a fyddai gan ddysgwyr yn eich ardal ddiddordeb mewn Cwrs Cefndir a gynhelir ym Mawrth 1989 yn Llanbedr Pont Steffan? Neu afallai bod eich darllenwyr yn nabod dysgwyr lleol sydd am wella eu gwybodaeth o'r Gymraeg a'n diwylliant.

Fe'i trefnir gan Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion yng Nghaerdydd ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn ddigon sicr eu gafael ar yr iaith lafar ac yn awr am ehangu eu gwybodaeth am Gymru a'i diwylliant yn ogystal â datblygu eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn hytrach nag ar ddysgu'r iaith yn ffurfiol.

Tybed a allwn ofyn, drwy golofnau'r papur, i'ch darllenwyr dynnu sylw dysgwyr lleol at y cwrs hwn?

Os ydych am fwy o fanylion, cysylltwch â Geraint Wilson-Price, Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, 22 Heol y Parc, Cathays, Caerdydd (0222) 390980.

Diolch yn fawr

Yr eiddoch yn gywir

Geraint Wilson-Price
Cynorthwy-ydd i'r Swyddog Ymchwil a Datblygu Dysgu Cymraeg i Oedolion

# Llongyfarchion

Llongyfarchiadau i Caryl a Myfyr Isaac. O hyn ymlaen fe fydd 'na driawd o ferched yn canu yn eu cartre' ger y Bontfaen gan fod eu hail ferch, Miriam, wedi ei geni ar Ionawr 16eg - chwaer fach i Elan ac i Gideon. Mae'n siwr y bydd o yn dotio ar Miriam fel y mae ar Elan ac yn barod i helpu ei dad i gadw trefn ar y cantorion - o bob oed!

Ein dymuniadau gorau iddyn nhw i gyd gan obeithio y cawn eu gweld a'u clywed yn aml iawn yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Catrin merch y Barnwr a Mrs Hywel ap Robert, Penarth ar ei phriodas â Mr Stephen Weekes y Cynhyrchydd Ffilmiau. Bydd y ddau yn ymgartrefu yng Nghastell Penhow, Gwent.

GRADDIO

Llongyfarchiadau i Eirian W Lewis F I P M, mab Trefor a May Lewis, Rhydhelig Avenue, Caerdydd ar ennill Gradd MA yn "Manpower Management" yng Ngholeg Politechnig Canolfan Llundain. Mae'n gweithio ym mhrif swyddfa Cymorth Cyfreithlon yn Llundain. Mae Eirian yn aelod yng Nghapel Minny St, Caerdydd.

# Pwy sy'n cofio'r rhain?



Dyma lun archifol o stabal y BBC 'Y Teledis'!
A oes gennych luniau archifol i'w hanfon i ni?

# Menna'n manylu

Efo'r Dolig tu cefn i ni, dwi o'r diwedd yn cael amser i wylio'r rhaglenni fu ar y teledu dros yr Wyl.
Roedd "boosters" ein teledu ni adre yn y Gogledd wedi chwythu unwaith eto a doedd hyd yn oed y ffôn ddim yn gweithio i alw'r trydanwr. Dyne sy'n braf byw ym mherfeddion cefn gwlad - cael byw mor gyntefig ag oedd fy nghyn-deidiau gan mlynedd yn ôl.
Roedd "Lliwiau" gan Rhydderch Jones yn eitha diddorol ac yn llawn cyffyrddiadau'n adlewyrchu bywyd a chefndir yr awdur ei hun.
Hoffais "Stormydd Awst" hefyd er symled y set. Cafwyd actio cahnlmdig gan actorion ifanc a'r rhai cyfarwydd, a braf gweld wynebau newydd yn cael blaenoriaeth unwaith eto gan gwmni annibynnol.
Weles i 'mo "Joni Jones" na "Ibiza, Ibiza" y tro yma, ond digon posib y bydd 'na drydydd darllediad y flwyddyn nesa!
I droi i'r iaith fain, cefais flas garw ar "Yanks" a ddarlledwyd ar S4C - mae dipyn o ramant mewn ffilm yn ei gwneud yn werth ei gwylio - yn enwedig a finne'n mynd i'r Merica fis Mawrth - ond 'sgennai ddim i'w ddweud wrth Yanks chwaith cofiwch - dim eu hacen nhw beth bynnag!
Er mor annwyl yw'r actor Dudley Moore, siomedig iawn o'n i'n y ffilm "10" gan nad oedd gafael o gwbwl yn y sgript. Dyma enghraifft wych arall o or-ganmol a gormod o gyhoeddusrwydd cyn iddi ymddangos ar y sgrîn.
Ond clasur o ffilm oedd "One flew over the cuckoo's nest" ac roedd perfformiadau Jack Nicholson ac eraill yn afaelgar, gwefreiddiol ac emosiynol iawn.
Erbyn hyn, mae tymor y rhaglenni arferol yn ei ôl - hynny ydi - fawr ddim! Felly diolch am ddiddordebau eraill fel y côr a'r cwmni drama i fyrhau'r gaea' ac edrychaf ymlaen yn eiddgar at y Dolig nesa i gael yr arlwy haeddiannol ar S4C a'r sianelau eraill!

D.N. - ymddiheuriadau am fod mor anhymorol.

Dymuna'r DINESYDD gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

# BWTH RUTH



Wel helo pa hwyl sydd? Mae'n fore Llun arnai'n rhoi'r pwt bach yma at ei gilydd ag mi rydwi mewn picil. Dwi fel arfer yn fy ngwaith erbyn yr hanner awr wedi wyth 'ma ond mae rwan yn chwarter wedi naw a dydi'r plymar ddim wedi cadw at ei air a bod yma cyn naw.

Dyma'r job syml sydd ar y gweill ers tri mis yn mynd i fod yn un hwy fyth - a dwi wedi cael llond bol - sori ddarllenwyr mwyn.

Dowch i ni fynd yn ôl i gychwyn y stori - ym mis Hydref mi gymerais i bythefnos o wyliau er mwyn ail wneud yr ystafell ymolchi - gosod basin newydd gan fod yna dolc yn yr un gwreiddiol ac mi rown i wedi bwriadu tynnu'r teils anghynes o gwmpas y basn a chael saer coed i wneud uned fach ddel, ddestlus mewn coedyn da, a tra bod hwnnw acw rhoi ochr newydd ar y bath - coedyn eto.

Gosodwyd y basn newydd a gwnaeth y saer joban ddel iawn o'r uned oddi tano ag mi ddangosodd o i mi sut fuaswn i yn gallu parhau i fwydo'r pren a chael sglein arno trwy ddefnyddio cŵyr arbennig a gwlân dur (steel wool).

Dyna fynd ati wedyn i dynnu ochr y bath ag, och ow dyma glec, ag yn lle bod ochr y bath yn dod i ffwrdd, dyma ddarn mawr o'r bath acrylic yn landio wrth draed y saer annwyl - felly rhaid oedd cael bath newydd - braf te!!!

Doedd dim posib cael y bath yr un diwrnod - bu rhaid aros am 3-4 niwrnod; mi ddôth y plymar i'w osod ond roedd y saer yn mynd ar ei wyliau am bythefnos!

Mi fûm i a'r teulu fu'n aros acw yn gorfod bathio yn ofalus iawn - a dyna'r tro cynta i mi sylweddoli pa mor bwysig ydi'r fframyn coed sydd o gwmpas bath - does dim rhaid i chi, pobl y baddonau hen hefo traed boeni.

Erbyn hyn mi rown i yn ôl yn fy ngwaith a'r baddondy yn dal heb ei orffen. Ers hynny mae ochr y bath yn goedyn sgleiniog, a dwi wedi dewis papur i'w roi ar y wal ond bod yn rhaid aros am dair wythnos amdano.

Dyma fore Llun ag mae yna ola ar ddiwedd y twnel - dwi'n gweld diwedd i'r job - gan fod y plymar yn dod i dynnu'r rheiddiadur i mi gael papuro y tu ôl iddo (plîs peidiwch â dweud na ddylwn i ddim papuro y tu ôl i reiddiadur!!) ag mi roedd o wedi addo i mi y byddai yma erbyn hanner awr wedi wyth - ond, rhoswch, dyna gloch y drws ffrynt - Helo Gari.

Mi a'i ati i gymysgu'r pâst dwi'n meddwl. Hwyl.

# LLYFRAU

TROS FOR IWERYDD
Gwyneth Derbyshire  Gwasg y Sir

Hanes teithiau'r awdures i'r Amerig i weld ei theulu a'i chyfeillion yw'r llyfr, a hynny rhwng 1960-1980. Nid tasg ysgafn i wraig ganol oed o gefn gwlad Cymru oedd cychwyn am y wlad enfawr honno yn y chwedegau cynnar ac wrth ddarllen y llyfr teimlwn ei menter a'i hegni dibendraw, y chwilfrydedd a'r diddordeb heintus sydd ganddi ym mhawb a phopeth o'i chwmpas. Nid rhyfedd bod croeso iddi dychwelyd dro ar ôl tro. Tristwch felly, a minnau ar ganol darllen y llyfr oedd clwyed am ei marwolaeth.

Aeth ei theithiau â hi ar hyd ac ar led yr Amerig - o Ganada i Golorado, i Galiffornia a Washington ac hefyd i fannau mwy diarffordd, a chawn flas o'r amrywiol bethau a welodd yno. Gan iddi aros gyda'i theulu ac ymuno â gweithgareddau ardal neu dref mae'n llwyddo i gyfleu awyrgylch y mannau hynny. Fe deithiodd ar long, awyren ac mewn modur ond yn bennaf ar fysiau'r 'Greyhound' a daw hyn ag elfen o antur i'r teithiau'n ogystal â rhoi cyfle iddi weld a sylwi, siarad a holi. Yr hyn a'm synnai oedd mor fyr oedd ei horiau cwsg. Anodd dirnad o ble y cai'r holl egni.

Dyna, efallai, yw cyfrinach llwyddiant y llyfr. Mae ei hasbri'n heintus a phytiau bach diddorol o hanes cefndir amn arbennig ney sgwrs gyda hwn a hwn, disgrifiad o dir a thyfiant; hanes cael ei gadael mewn man anghysbell ganol nos ar ôl taith mewn awyren fach od; profiad mewn ysbyty - y cyfan yn cynnal ein diddordeb.

Teimlaf mai'r elfen bersonol yn y llyfr sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i mi. Gall hanes teithiau i'r Amerig bellach fod yn ddigon tebyg i'w gilydd, ond yma trwy'r teulu down yn rhan o'r gymdeithas a theimlo gwres y croeso a dod i wybod am y cysylltiadau â Chymru. Mae'r llyfr ar y cyfan yn un hawdd i'w ddarllen a'r ysgrifennu'n ystwyth a da. Gall y sawl a fu yno rannu atgofion â hi ond mae'r disgrifio'n ddigon byw i roi blas o'r lle i unrhyw un.

Rhiannon Geraint

# Datblygiadau



AR LOG I DDATHLU X!

I ddathlu deng mlynedd o recordio fel grŵp mae Sain yn falch o gyhoeddi'r record a'r caset hir "Ar Log V".

Hon yw record/caset cyntaf Ar Log ers mis Medi 1984; a'u wythfed record hir mewn gwirionedd gan fod y grŵp wedi recordio dau gasgliad o ganeuon ac alawon efo Dafydd Iwan, "Rhwng Hwyl a Thaith" (1982) ac "Yma o Hyd" (1983), yn ogystal â "Meillionen" y record hir o alawon dawnsio gwerin ar label Dingles.

Y tro hwn mae nifer o gyfansoddiadau newydd gan Stephen Rees ac Iolo Jones yn plethu'n gelfydd efo alawon traddodiadol sydd wedi eu trefnu gan Stephen ac Ar Log.

Recordiwyd y cyfan yn Stiwdio Loco, Caerleon, Gwent a Stiwdio Sain gyda'r peirianwyr Nick Smith (Loco) ac Eryl Davies (Sain). Eryl fu'n gyfrifol am gymysgu'r traciau efo'r bechgyn hefyd.
Clywir ambell i offeryn fyddwn yn eu cysylltu ag Ar Log fel arfer, ar y record newydd, er enghraifft y Yamaha DX7 (syntheseinydd a phiano hyblyg iawn) a'r pibau pan o Dde America. Cafodd Dafydd Roberts y pibau yma yn Ne America, pan oedd Ar Log ar daith yno ar ddiwedd 1987. Dangoswyd ffilmiau o'r daith yma ar S4C yn ddiweddar.

I holi Ar Log am eu cynlluniau ar gyfer 1989 ac am gynnwys y record newydd, cysylltwch â Gwyndaf Roberts, 33 Norwood, Thornhill, Caerdydd CF4 9DE Ffôn (0222) 756931

Rhif y record Sain 1468M
Rhif y caset Sain C668N




Enillodd Catrin Rowlands, Llanishen, Caerdydd lun arbennig o Geraint Griffiths, a'i gaset newydd mewn cystadleuaeth ar y radio yn y Brifddinas.
Trefnwyd y gystadleuaeth gan Derec Brown, cyflwynydd y rhaglen "Cadw Cwmni" (gorsaf y Ddraig Goch), a chyfranwyd caset diweddaraf Geraint, "Ararat" gan Sain.
Mae Catrin yn ddisgybl dosbarth pedwar yn Ysgol Gyfun Glantaf, ac yn y llun fe'i gwelir yn derbyn ei gwobrwyon gan Geraint a Derec.

## Penarth a Dinas Powys

Cymdeithas Gymraeg Dinas Powis

Nos Lun y nawfed o Ionawr daeth aelodau'r Gymdeithas ynghyd yn y Manor Inn, Ffordd Sili i gynnal Cymanfa Werin. Rhodri Jones oedd yn gyfrifol am y noson ac o fewn hanner awr 'roedd y lle'n atsain i'r canu hwyliog i gyfeiliant Rhian Bebb a'i 'accordian'. Cyfarfod codi calon oedd hwn ar ôl holl dristwch y dyddiau dreng ar digwyddiadau trychinebus a daflodd gysgod drosom o flaen ac ar ôl y Nadolig. Diolchwyd i Rhodri a Rhian gan ein Cadeirydd Gill Lewis. Cymerodd Gill y cyfle o'n hatgoffa am y cyfarfod nesaf "Hen Bethe", yng ngofal Helen Daniel. Ewch ati nawr i chwilio am eich trysorau a dewch a nhw i'n man cyfarfod arferol yn Ysgoldy Sant Pedr ar Chwefror 6 er mwyn cael barn yr arbenigwyr Non Henderson a Mary Wiliam. Os am fanylion pellach cysylltwch â Helen Daniel ar Dinas Powis 512430.

# Gwnes addunedau fil-i gadw'r llwybr cul

Wrth eistedd yn y trên ar y ffordd i'r dref y bore 'ma penderfynais beth a ddylsai addunedau pawb oedd o'm hamgylch fod. 'Roedd yno ddynes ganol oed yn eistedd o'm blaen yn amlwg yn ceisio'i gorau glas i fod yn ei harddegau unwaith eto. 'Roedd ei gwallt a ddylsai fod yn britho yn 'streaks' melyn ffals âg ôl sawl perm arno. A'i hwyneb yn gacen o golur oren, a llinell y 'foundation' yn glir o amgylch ei gwddf. 'Roedd y glas llachar ar ei hamrannau yn gwneud iddi edrych yn ddim gwell na chlown, ac ni allwn weld atyniad y minlliw coch llachar ar ei gwefusau tenau (ac ar ei fdannedd melyn o ran hynny!) Roedd ei chorff helaethog yn bochio allan o'i sgert ddenim fer a wnaethai ddim byd i weniaethu ei choesau gwynion. Ei hadduned hi'n sicr byddai bod yn hi ei hun.

Drws nesaf i mi eisteddai hen wraig, ddigon dig yr olwg oedd yn cil edrych yn flin ar y bechgyn ifanc bob tro oedd rhywbeth bad oedd yn weddus ac angylaidd yn pasio'u gwefusau, gan fwmian dan ei gwynt "Pobl ifanc y dyddiau yma!" (y frawddeg glasurol gan oedolion!) Dylsai hi droi clust fyddar ambell dro gan gofio weithiau ei bod hi wedi bod yn ifanc unwaith.

Ar draws yr eil eisteddai clamp o ŵr tew yn stwffio'i wyneb enfawr coch â chreision o baced yn ei law dde, a siocled o'i law chwith. 'Roedd ei stumog brasterog yn gwrthryfela'n erbyn y botymau gwan oedd yn cau ei grys a brin orchuddiau ei fol hyll. Wedi gorffen ei bicnic trôdd at ei wraig fregus, eiddill - allwn ddim llai na chwerthin wrth eu dychmygu yn y gwely! - gan ofyn iddi â'i fochau'n crynu fel daeargryn beth oedd wedi'i baratoi i swper - ei adduned ef byddai iddo fynd ar ddeiet - ac yn gyflym!

Y bobl a'm cythruddodd fwyaf oedd y ddau 'yuppie' ifanc oedd yn trafod yr arwydd dwy-ieithog oedd ar y wâl. Yn "ymdrechu" mor galed i ddarllen y Gymraeg rhwng pyliau o giglo plentynaidd. Ond fi oedd 'r achos chwerthin wrth eu clywed yn ynganu "y" fel "i" a "dd" fel "d" - dim ond i enwi rhai. Gan fynd ymlaen i drafod beth oedd y pwynt cael arwydd Cymraeg pan oedd pawb yn siarad Saesneg. Eu hadduned hwy fyddai peidio bod mor gul ac 'ignorant'.

Wrth stopio a meddwl am fy hun, pa hawl oedd gwn i benderfynu sut fath o bobl oeddent heb eu hadnabod. Ac yn sicr gallwn ni gymryd golwg dros eu haddunedau gan addunedu fel y bobl ar y trên, nid fy mod yn awgrymu am funud fod darllenwyr y Dinesydd yn ffals, neu'n dew, yn feirniadol neu'n gul. Ond yn sicr f'adduned i ddylsai peidio bod mor feirniadol o bobl nad wyf yn eu hadnabod. Tybed beth ddylsai eich rhai chi fod? Blwyddyn Newydd Dda!

Beca Llwyd.


HYSBYSEBWCH
YN
Y
DINESYDD

AM FANYLION CYSYLLTER A:
Tony Couch,
8 Crystal Glen,
Y Mynydd Bychan,
Caerdydd. CF4 5GH
FFON CAERDYDD 763685
neu 818881 est. 344


At sylw'r Wasg a'r Cyfryngau

Yn Nhymor y Grawys 1989, gwelir ailffurfio'r Gymdeithas Ddiwinyddol ac Astudiaethau Crefydd yng Ngholeg Caerdydd, Prifysgol Cymru.

Y mae'r gyfres o ddarlithiau a drefnwyd yn adlewyrchu natur ddeublyg y Gymdeithas. Y mae iddi, yn gyntaf, ei phwrpas academaidd. A hithau'n gymdeithas golegol, ceisiwyd llunio rhaglen o ddarlithoedd a fyddai'n berthnasol i'r hyn a astudir gan fyfyrwyr y Gyfadran Ddiwinyddol a'r Adran Astudiaethau Crefydd. Credwn fod cwmpas eang y darlithoedd yn adlewyrchiad teg o hynny.

Ond y mae'r Gymdeithas yn bod i gyflawni diben llawer ehangach na hynny. Gan na ellir cyfyngu unrhyw ymchwil diwinyddol na chrefyddol i goleg, y mae'r gyfres o ddarlithoedd a drefnwyd yn fforwm a fydd yn agored i bawb. Gwelwn nifer o resymau sy'n galw am fforwm o'r natur yma.

Y mae lluosogrwydd crefyddol Caerdydd yn sefyllfa arbennig o addas ar gyfer fforwm o'r fath. Gwelir felly gyfraniadau Iddewig, Cristnogol a Moslemaidd yn y gyfres. Bydd darlith M Mashuq i Ally yn arbennig o bwysig yn y cyswllt hwn.

Bydd darlith y Dr Michael Walker o Goleg y Bedyddwyr, Caerdydd, yn trafod dau o gewri'r traddodiad Cristnogol, sef Martin Luther a Sant Ioan y Groes. Wrth gymharu a chyferbynnu'r Protestant a'r Pabydd, diau y bydd arwyddocad ecwmenaidd arbennig i'r ddarlith hon.

Cyplysir yr athronyddol a'r crefyddol yn narlith y Dr Peter Moore o Brifysgol Caint. Y mae dirgelwch y bodau allfyddol yn sicr o fod o ddiddordeb i nifer cynyddol o bobl, yn hen ac ifanc. A phrin y gellid gwadu fod i'r bodau hyn eu harwyddocad crefyddol ac athronyddol.

Yn olaf, bydd darlithoedd D P Davies a Dafydd Elis Thomas yn ymgodymu â diwinyddiaeth o fewn y cyd-destun Cymreig. Bydd y naill yn ceisio 'lleoli' Diwinyddiaeth Rhyddhad a darddodd yng ngwledydd De America a'r llall yn mynd i'r afael â Diwinyddiaeth Heddwch. Bydd y ddwy ddarlith yma o ddiddordeb i unrhyw un sy'n ceisio cydbwyso'r ymchwil diwinyddol a'r brwydro gwleidyddol. Lleolir y cyfan o fewn cyd-destun sydd ar yr un pryd yn genedlaethol a rhyng-genedlaethol.

Gwelwn felly fod i ddiwinyddiaeth a chrefydd, yn yr ystyr letaf, rôl allweddol i'w chwarae yng nghymunedau De-ddwyrain Cymru heddiw. Anogir pobl Caerdydd a'r cylch i fynychu'r gyfres hon o ddarlithoedd ac i geisio deall y rôl hon yn well.

Meurig Llwyd Williams
Cadeirydd

RHESTR SIARADWYR: TYMOR Y GRAWYS

(1) Ionawr 16 7.30pm
D P Davies (Deon Diwinyddiaeth Coleg Llanbedr Pont Steffan)
"Diwinyddiaeth Rhyddhad yn y cyd-destun Cymreig"


(2) Ionawr 27 7.00pm
M Mashuqi Ally (Canolfan Islamaidd Coleg Llanbedr Pont Steffan)
"Perthynas Mwslimaidd a Christnogion"

(3) Chwefror 14 7.00pm
Dr Michael Walker (Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd)
"Martin Luther a Sant Ioan y Groes"

(4) Chwefror 28 7.00pm
Dr Dafydd Elis Thomas AS (Llywydd Plaid Cymru)
"Diwinyddiaeth Heddwch mewn Oes Thatcheraidd"

(5) Mawrth 9 7.00pm
Dr Peter Moore (Prifysgol Caint)
"Bodau Allfydol: Beth yw eu hoblygiadau athronyddol a chrefyddol?"

CYNHELIR YR HOLL GYFARFODYDD YN ADEILAD Y DYNIAETHAU




# GWOBR ARALL I AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Am yr eildro o fewn ychydig fisoedd, mae Amgueddfa Werin Cymru wedi ennill un o brif wobrau'r byd amgueddfaol a thwristiaeth. Yn dilyn gwobr arbennig Awdurdod Twristiaeth Prydain (B.T.A.) am fod yn atyniad a wnaeth gyfraniad sylweddol i ddenu ymwelwyr tramor, y mae'r Amgueddfa Werin yn awr wedi derbyn gwobr Carnegie am ddehongliad o dai Rhyd-y-car a symudwyd i'r Amgueddfa Werin o Ferthyr Tudful ddwy flynedd yn ôl.

Er fod y chwe tŷ teras wedi eu hadeiladu'n wreiddiol ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan Richard Crawshay ar gyfer ei weithwyr yn y diwydiant haearn, penderfynwyd wrth eu hailgodi yn Amgueddfa Werin Cymru fod cyfle yn awr i ddehongli datblygiadau mewn technegau adeiladu ac amodau byw dros gyfnod o ddau can mlynedd a hyn sydd wedi gwneud y datblygiad hwn yn atyniad cyffrous a diddorol. Y mae pob tŷ yn cynrychioli dyddiad gwahanol; 1805, 1855, 1895, 1925, 1955 a 1985, a phob un tŷ wedi ei ddodrefnu yn unol â'i gyfnod gyda'r manylder llwyraf. Y mae ôl ymchwil trylwyr ar gynnwys pob un o'r tai; ymchwil oedd yn seiliedig hefyd ar atgofion personol trigolion tai Rhyd-y-car. (Y mae llyfryn cynhwysfawr a chasét yn cynnwys sgyrsiau rhai o'r trigolion ar werth yn siop yr Amgueddfa).

Cyflwynwyd tystysgrif Carnegie i Guradur Amgueddfa Werin Cymru, Dr. J. Geraint Jenkins gan Arglwydd Montagu o Beaulieu, Cadeirydd 'English Heritage' mewn seremoni yn yr Amgueddfa Wyddoniaeth yn Llundain ar Ionawr 26, 1989. Yno hefyd, yr oedd Dr. Eurwyn Wiliam, Ceidwad Adeiladau a Bywyd Cartref yr Amgueddfa Werin a John Bevan, y Pennaeth Marchnata.

Yr oedd datblygiad Rhyd-y-car yn allweddol wrth ddenu ymwelwyr i'r Amgueddfa Werin ym 1988 pan fu 40% yn fwy o ymwelwyr yn yr Amgueddfa o'i gymharu â'r flwyddyn gynt.




# PEINTIO'R BYD...


Gwelodd ein Prifddinas un o'r protestiadau grymusaf ar ddydd Sadwrn y 28ain o Ionawr.Trefnwyd y brotest gan Gymdeithas yr Iaith yn eu hymgyrch i gael Deddf Newydd i'r iaith.Daeth oddeutu 800 o bobl ynghyd i ddatgan a thystio eu sel a'i pryder ynglyn a'r iaith a'i dyfodol.Cymaint y sel a'r pryder erbyn hyn,ymunodd pobol o bob oedran a chefndir yn yr orymdaith. Roedd yr ifanc yno , y canol oed a hyn, yn bobol barchus a chyhoeddus. Ymhlith y rhai a arestwyd yr oedd neb llai, neu, neb mwy nag un o sylfaenwyr Y Dinesydd sef Dr Meredydd Evans.Y mae Cymry Caerdydd yn anad neb yn ymwybodol o sel, cariad, ymlyniad a brwdfrydedd Lered dros bopeth gorau ynglyn a'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Y brotest hon oedd y fwyaf a welwyd yng Nghaerdydd ers llawer i flwyddyn.Os na welir ffrwyth y brotest hon cyn hir bwriad y Gymdeithas yw anelu ei hegnion i dynnu sylw, er bod gan Y Swyddfa Bost bolisii gydnabod yr iaith, nad yw yn effeithiol obell ffordd. Mawr fydd diddordeb darllenwyr y Dinesydd yn llwyddiant yr ymgyrch hon.



**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 87



Ar Draws

1. Rhaid wrth help organ (a dimarall) i gael "ystyr y darn." (10)
6. Mae'n sâff i ddibynnu ar y clogwyn bychan. (4)
10. A fentrir i osod y cyfan yn ddestlus? (7)
11. Cymysgwn ni sbeis ---- a chael teclyn-gosod-esgid. (7)
12. Locwm tenens o Rufain. (9)
13. Codi clic y llidiart a chael cip ar y byd ariannol. (5)
14. Cynnyrch awen y bardd-talcen-slip. (5)
15. Mae hwn yn cael cyhoeddiad gan yr Hen Gorff yn rheolaidd (9)
17. O guro slaf yn afresymol, byddai'r meistr yn pryderu gormod. (9)
20. Holi yn fywiog o Fynwy. (5)
21. Dysgu bachgen i wneud rhwymyn o ŷd. (5)
23. Y trydydd person sy'n ymwneud â hyn. (9)
25. Ai pêl ai arall y byddai yn ymbil amdano? (7)
26. Map morwrol yn dwyn llofnod y frenhines gan estyn braint. (7)
27. Ei dderbyn i'r Urdd? (4)
28. Troi a throsi, a dewch yn ôl â gwir ystyrt y cliw - does dim modd ei osgoi. (10)

I Lawr

1. Ymhell o'i gynefin. (5)
2. Fel mae clai i'r crochennydd, mae hwn i'r gof. (6,3)
3. Y rryfaf a ddylai gario hwn, ond nid felly y mae hi bob amser. (3,6,1,4)
4. Chwa iasol, rwy'n eto'n crynu o'i herwydd...... (7)
5. .... a hon eto yn peri cryndod (3,2,2)
7. Ai lle mab yw troi rhif amhendant yn achlysurol? (5)
8. Yn bendant, nid Iddew mohono. (9)
9. Dyma addywedai Ianto-Ffwl-Pelt pe bai yn Ogleddwr (3,3,1,7)
14. Rhydd faglau i'w hagor er mwyn tybio.
16. Disodlaf Tomos --- mae'n troi allan ei fod yn peri syrffed (9)
18. Cyfnod y Croes-gadau? (7)
19. Fe ddaru chi aros yn stond! (7)
22. Glas y ferch. (5)
24. Yr etifedd ar ddiwedd yr wyddor yn gosod torch. (5)

---

Datrysiad rhif 86 (Y Nadolig)

Ar Draws

1. Anrhegion; 5. Delysg; 9. Bethlehem; 10. Cerdyn; 12. Ysaist; 13. Dyfheir; 15 15. Ymgnawdoliad; 18. Wele Gwawriodd; 23. Nos Galan; 24. Entyrch; 26. Adfent; 27. Mins Peis; 28. Teneuo; 29. Sion Corn.

I Lawr

1. Allblyg; 2. Rhuthrad; 3. Gwelsom; 4. Olew; 6. Eneinio; 7. Ymdrechir; 8. Generadu; 11.Bythwyrdd 14. Yn Llafar; 16. Mwyniant; 17.Tlysaf Un; 19. Glannau; 20. Ofnaswn; 21. Croeso; 22. Achoswn; 25. Miri.

---

Cystadleuaeth rhif 86

Daeth wyth ymgais i law, a phob un ohonynt yn hollol gywir. Yr un a dynnwyd o'r het oedd Heledd-Ann Hall, 14, Wyndham Road, Canton, ac fe fydd tocyn llyfr £5 ar ei ffordd iddi gyda hyn. Y saith cywir ond anlwcus oedd : Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; BT, Cyncoed; Tecwyn Vaughan Jones, Thornhill, Huana Simpson, Y Bontfaen; Marged Davies, Llandâf ac N Mathias, Castell Newydd Emlyn a Delyth Pollard, Nant Gwyn, 27 Hazeltree Close, Radur.

---

MENTER A BUSNES -
hwb i'r Cymry Cymraeg

Bydd menter fusnes Gymraeg newydd a sefydlwyd i hybu gweithgarwch economaidd Cymry Cymraeg ledled y wlad yn cychwyn yn y Flwyddyn Newydd o dan gyfarwyddyd Mr Hywel Evans.

Ariennir Menter a Busnes am gyfnod cychwynnol o dair blynedd gan Ddatblygu'r Canolbarth ac Awdurdod Datblygu Cymru. Agorir ei phrif swyddfa ym Mharc Gwyddoniaeth Aberystwyth ar Ionawr 1af 1989.

Mae'r cyfarwyddwr newydd, sy'n enedigol o Gaerdydd, yn briod â dau o blant ac yn byw yn Llanbrynmair. Treuliodd Mr Evans y deng mlynedd diweddaf yn gweithio i Ddatblygu'r Canolbarth. Cafodd brofiad helaeth iawn yno o waith datblygu economaidd, yn enwedig yn y blynyddoedd diwethaf wrth reoli gwasanaethau menter a hyfforddi gyda chyfrifoldeb arbennig am sefydlu rhaglen addysg/diwydiant lwyddiannus Datblygu'r Canolbarth, ac am ddatblygu rhwydwaith o Ganolfannau Busnes lleol i ddarparu cymorth i bobl â'u bryd ar gychwyn busnesau.

Cyn ymuno â Datblygu'r Canolbarth, bu'n rheolwr ar Theatr Felinfach am saith mlynedd, gan ei helpu i ennill ei phlwyf fel un o brif theatrau bro Cymru.

'Sefydlwyd y cynllun er mwyn datblygu menter a busnes yn ffactorau positif ym mywyd y Gymru Gymraeg', eglurodd Mr Evans. 'Gwelwyd bod ymateb cyffredinol Cymry Cymraeg i wasanaethau cychwyn busnesau yn gymharol lugoer. Mae'n amlwg mai statws isel sydd gan fyd busnes a meysydd economaidd perthynol yn y diwylliant Cymraeg'.

'Ein bwriad yw sicrhau bod Cymry Cymraeg yn cyfrannu at brosiectau economaidd lleol, ac er mwyn dyfnhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o fyd busnes byddwn yn helaethu'r sylw a roddir gan y cyfryngau, yn annog cyflwyniadau theatrig ac yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol yn fisol, yn ogystal a chyrsiau i symbylu syniadau.

'Bwriadwn gynhyrchu pecyn cynhwysfawr o ddeunydd ar gyfer eu defnyddio i ddatblygu syniadau busnes, ac mae gennym syniadau ar gyfer newyddlen busnes Cymraeg, a chynlluniau ar gyfer sefydlu cronfeydd buddsoddi yn yr arfaeth ar gyfer y dyfodol'.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â

Mr Hywel Evans
Menter a Busnes (0970) 625562
neu adref (06503) 374